# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Bodedern

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Bodedern yn gymuned hapus a chartrefol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau buddiol at eu dysgu ac ymddygiad cadarnhaol.

Rhinwedd nodedig o ddarpariaeth yr ysgol yw'r berthynas glòs sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff. Mae athrawon yn ystyried syniadau a chwestiynau'r disgyblion yn gyson wrth gynllunio gweithgareddau sy'n ennyn eu diddordeb yn y themâu tymhorol yn dda. Cryfder amlwg yw'r modd mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio'n ystyrlon i ganolbwyntio ar gynefin y disgyblion. O ganlyniad i'r cynlluniau pwrpasol hyn, mae'r disgyblion yn meithrin balchder at eu bro, gan ddathlu treftadaeth Bodedern ac Ynys Môn yn hynod effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y gweithgareddau dysgu yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn datblygu ystod o fedrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Ar adegau, mae tueddiad i staff or-arwain y dysgu, sy'n arafu gallu'r disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi ac anogaeth amserol er mwyn cefnogi cynnydd disgyblion a sicrhau eu dealltwriaeth. Maent yn rhannu adborth yn amserol sy'n galluogi disgyblion i adnabod beth maent wedi ei wneud yn dda. At ei gilydd, nid yw'r adborth yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r staff yn cael eu cefnogi'n frwd gan lywodraethwyr sy'n llwyr ymroddedig i lwyddiant yr ysgol. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gweithio'n agos â staff er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r safonau dysgu. Yn dilyn gweithgareddau monitro, maent yn rhannu gwybodaeth am eu canfyddiadau yn briodol, gan ymateb yn brydlon i'r hyn sydd angen ei wella.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Ehangu a mireinio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn adnabod y camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn effeithiol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2025